**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/VG/1254/19

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

28 Mawrth 2019

Annwyl Mick,

Yn dilyn ymchwiliad diweddar y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i ddulliau o weithio rhwng llywodraethau, roeddwn yn teimlo ei bod yn briodol rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn dilyn cyfarfod cyntaf Gweinidogion y Pedair Gwlad. Cynhaliwyd y cyfarfod yn Llundain ddydd Llun 11 Mawrth i drafod yr heriau i iechyd o ganlyniad i Brexit.

Yn bresennol yn y cyfarfod roedd y Gweinidog Gwladol dros Iechyd yn Llywodraeth y DU Stephen Hammond AS, Gweinidog yr Alban dros Iechyd y Cyhoedd Joe Fitzpatrick ASA ac Ysgrifennydd Parhaol Gogledd Iwerddon Richard Pengelly. Gyda'n gilydd, gwnaethom adolygu'r camau sy'n cael eu cymryd ym mhob rhan o'r DU i sicrhau parhad cyflenwad meddyginiaeth ac offer meddygol; gweithlu; cadernid ac ymateb brys, a'r trefniadau gofal iechyd cyfatebol yn dilyn ymadawiad y DU o'r UE. Fel y gwyddoch, mae cynlluniau ar waith gan y pedair gwlad, yn ogystal â threfniadau ar y cyd ar lefel y DU.

Yn ystod y trafodaethau, pwysleisiais fy mhryder gwirioneddol ynglŷn â'r uchafswm arfaethedig o £30 mil ar gyfer mudo yn y Papur Gwyn am Fewnfudo a dosbarthiad gwaith gofal fel gwaith â lefel isel o sgiliau. Mae'r uchafswm arfaethedig hwn yn her wirioneddol i economi Cymru ac ar gyfer recriwtio a chadw yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn benodol. Gwnaeth Stephen Hammond gydnabod a rhannu'r pryderon hyn. Ond, mae polisi mewnfudo yn gyfrifoldeb ar y Swyddfa Gartref, ac yn anffodus ni wnaeth ymrwymo i godi'r mater gyda'i gydweithwyr gweinidogol.

Gwnaethom hefyd drafod trefniadau gofal iechyd cyfatebol ar ôl Brexit a chadarnhau'r berthynas waith agos ac effeithiol rhwng y llywodraethau ar y gofynion deddfwriaethol a'r darpariaethau yn y maes hwn. Mynegais fy ffafriaeth bendant am drefniadau ar draws Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop (EFTA) yn hytrach na threfniadau dwyochrog gyda phob aelod-wladwriaeth unigol. Ni fydd yr UE yn ymateb nes y daw Senedd y DU i gytundeb ac mae'n cynghori ei aelodau i beidio â thrafod trefniadau dwyochrog gyda'r DU.

Mewn sefyllfa o ymadael â'r UE heb gytundeb, byddai'r trefniadau gofal iechyd dwyochrog presennol yn dod i ben. Mae Llywodraeth y DU wedi ysgrifennu at bob Aelod-wladwriaeth

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

o’r UE yn gofyn iddynt barhau â’r trefniadau presennol tan 31 Rhagfyr 2020. Byddai trefniadau ar waith dim ond ar gyfer y gwledydd hynny sydd â threfniadau dwyochrog wedi’u cytuno gyda’r DU (a fyddai yr un fath â’r sefyllfa bresennol). Defnyddir y Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) i weithredu trefniadau gofal iechyd i’r dyfodol sy’n wahanol i’r trefniadau presennol.

Daeth y cyfarfod i ben gyda chytundeb ynglŷn â’r pwyntiau a’r camau gweithredu allweddol a ganlyn:

- os byddwn yn wynebu sefyllfa lle bydd angen blaenoriaethu cyflenwadau, bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud ar sail glinigol gan y pedwar Prif Swyddog Meddygol gyda’i gilydd, yn hytrach na gan Weinidogion yn unigol
- bydd 4 Prif Swyddog Meddygol y DU yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â dyrannu a blaenoriaethu’r holl gyflenwadau os byddant yn brin, heb unrhyw ymglymiad/ymyrraeth gan Weinidogion;
- dylai’r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol rannu gwybodaeth ar radioisotopau, gan gynnwys drwy alwadau rheolaidd rhwng swyddogion;
- dylai’r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol rannu gohebiaeth rhwng Llywodraeth y DU a’r UE ynglŷn â gofal iechyd cyfatebol;
- dylai Llywodraeth Cymru rannu dadansoddiad o’r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru pan fydd ar gael:
- bydd y pedair gweinyddiaeth yn parhau i gyfarfod a thrafod y cynlluniau hyn yn rheolaidd o hyn allan, dim ots beth fydd yn digwydd dros y misoedd nesaf.

Rwy’n siŵr y byddwch yn cytuno y gallai ac y dylai llawer o’r camau sy’n cael eu cymryd yn awr i baratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb fod wedi cael eu hosgoi pe bai Llywodraeth y DU wedi gallu rhoi sicrwydd ynghylch ein dyfodol gydag Ewrop mewn da bryd. Mae’n bwysicach nag erioed bod Senedd y DU a Llywodraeth y DU yn diystyru Brexit heb gytundeb. Bydd methu â gwneud hyn yn arwain at risg o ganlyniadau hirhoedlog a gwirioneddol i iechyd a lles unigolion, teuluoedd, a chymunedau yn y DU.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services